

Bwrdd Iechyd Lleol Conwy

**Adolygiad o Gynnydd
yn erbyn Safonau Gofal
Iechyd Cymru -
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Dyddiad: Hydref 2007

Cynnwys

	Rhif Tudalen
1. Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2. Proses Asesu 2006-07	5
3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Conwy	9
4. Darganfyddiadau	
▪ Profiad y Claf	11
▪ Canlyniadau Clinigol	21
▪ Llywodraethu Gofal Iechyd	25
▪ Iechyd y Cyhoedd	41
5. Y Camau Nesaf.....	46
 Atodiadau	
Atodiad 1: Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd	48
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon	50
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Profiad y Defnyddiwr, Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, a Chorfforaethol.....	57
Atodiad 4: Geirfa Termâu.....	59

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darganfyddiadau'r gwaith yr ymgymherodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ag ef i brofi a dilysu hunanasesiad Bwrdd Iechyd Lleol Conwy 2006-2007 o'i berfformiad yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* fis Mai 2005, a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn gosod fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi'r GIG a sefydliadau sy'n bartneriaid wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd ledled pob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Yn gyntaf oll, mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi'u cynllunio i gyflawni'r lefelau gwell o ofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru yr hawl resymol i'w disgwyl, ac felly maent yn darparu sail y gall sefydliadau gofal iechyd adeiladu arni, a chyflawni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal cleifion y manylir arnynt yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae gofyn i bob sefydliad gofal iechyd¹ yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, waeth beth yw'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn gosod 32 safon dan bedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o werthoedd craidd a ddylai danategu comisiynu a chyflenwi gwasanaethau gofal iechyd. Mae pob safon mewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf, '*Profiad y Claf*' yn nodi:

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dymuniadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn

¹ Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel sefydliadau GIG Cymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dymuniadau'r cleifion. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes, 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi:

Bydd y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar dystiolaeth gwaith ymchwil a gaiff ei asesu'n briodol ac yn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes, 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn ei gwneud yn glir:

Bydd gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau yn eu lle sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth. Bydd arferion gwaith yn eu lle i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes, 'Iechyd y Cyhoedd' yn nodi:

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydweithredu â sefydliadau perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfio

1.5. O fis Ebrill 2007 ymlaen, mae disgwyl i sefydliadau gofal iechyd GIG yng Nghymru eu hasesu eu hunain yn erbyn y safonau gofal iechyd a chyflwyno datganiad cyhoeddus blynyddol o'u perfformiad.

1.6. Mae disgwyl i sefydliadau gyflwyno'u datganiad a gwybodaeth hunanasesu yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain y broses o gydlynu'r profion a dilysu'r wybodaeth. Bydd y dadansoddi ar sail risg, ac yn cymharu'r

canlyniadau ag amrywiaeth o ffynonellau data. Manylir ar y broses y mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi'i mabwysiadu i brofi a dilysu'r wybodaeth a gyflwynwyd yn 2006-2007 yn yr adran ganlynol.

1.7. O fis Ebrill 2008 ymlaen, defnyddir perfformiad sefydliad o ran cydymffurfio â'r safonau gofal iechyd hefyd i ddarparu sail ar gyfer Datganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1. Bu 2006-2007 yn flwyddyn ddatblygiadol, pan gafodd proses newydd o asesiadau ei datblygu a'i rhoi ar brawf. Bu'r pwyslais ar ddatblygu proses asesu sy'n gosod yn gadarn y cyfrifoldeb am gydymffurfio â *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd, ac sy'n cefnogi'r agenda llywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol at sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau maent yn eu darparu, a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael gwybod yn well ynghylch perfformiad eu comisiynwyr a'u darparwyr gofal iechyd ac, yn anad dim, ynghylch y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, mewn ymgynghoriad â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, wedi datblygu proses hunanasesu sy'n rhoi perfformiad ar brawf yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel amlwg:

- *Corfforaethol* – pa mor dda mae Byrddau'n gwneud eu gwaith mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaid â'r Safonau?
- *Canlyniadau Clinigol/Gweithredol* - sut maent yn sicrhau cydymffurfiaid â'r safonau ar lefel gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*² – sut beth yw profiad y defnyddiwr ac a yw'n gwella?

2.3. Mae meini prawf a chwestiynau asesu wedi'u gosod ar gyfer pob safon, ac wedi'u datblygu'n offeryn asesu seiliedig ar y we sy'n caniatáu cwblhau hunanasesiadau ar-lein, a lanlwytho tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddir i bob cwestiwn. Mae canllawiau'n cyd-fynd â'r cwestiynau, ac yn darparu cyfarwyddyd defnyddiol ar ofynion pob un o'r 32 safon.

2.4. Bu gofyn i sefydliadau asesu'u cynnydd o ran perfformio ar y lefel uchaf yn erbyn pob un o'r 32 safon, gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices

² Yn nghyd-destun proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd, defnyddir y term 'defnyddiwr' i olygu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

aeddfedrwydd yn caniatáu pennu un o bum lefel aeddfedrwydd wrth asesu perfformiad ar lefel gorfforaethol, lefel weithredol a lefel profiad y defnyddiwr:

- Yn ymwybodol
- Yn ymateb
- Yn datblygu
- Yn ymarfer
- Yn arwain

Darperir diffiniad o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1.

2.5. Gan y bu hon yn flwyddyn ddatblygiadol, bu'n rhaid i sefydliadau GIG gwrdd â rhai amserlenni tynn, a bu gofyn iddynt gyflwyno'u hunanasesiad wedi'i gwblhau i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, sef tri mis ar ôl rhyddhau'r offeryn asesu. Fe wnaeth BILI Conwy ei gyflwyno mewn pryd, a hoffem gydnabod y swm mawr o waith, ymdrech ac ymrwymiad y mae BILI Conwy wedi'i ddangos i sicrhau ei fod yn cwrdd â'r amserlen.

Rhoi'r Hunanasesiad ar Brawf a'i Ddilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi rhoi'r hunanasesiad a gyflwynwyd gan BILI Conwy ar brawf a'i ddilysu, a golygodd hyn gymryd nifer o gamau:

- *Cam 1* – Dilysu pen bwrdd o'r hunanasesiad gan dîm o adolygwyr cymheiriaid a llyeg. Roedd y cam hwn yn ymwneud â gwirio a oedd y cwestiynau sy'n cefnogi pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi a oedd tystiolaeth berthnasol a digonol yn cefnogi'r ateb, a gwerthuso a oedd yr ateb yn dangos bod y sgôr aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad yn addas.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd safoni drwy gydol mis Awst i gymharu a chyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol i sicrhau cysondeb a safoni sgorau.
- *Cam 3* – Ymweliadau â safleoedd sefydliadau i roi agweddau pwysig ar brofiad y defnyddiwr/y claf ar brawf.

Yr Ymweliad Safle

2.7. Roedd yr ymweliad safle'n un cam o ddilysu hunanasesiad BILI Conwy a'i roi ar brawf. Fel y nodwyd uchod, roedd yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 18 Medi 2007, ac fe wnaethom hwyluso grwpiau ffocws cleifion a staff.

2.8. Yn ychwanegol at hyn, archwiliwyd datganiadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB), hyfforddiant ac arfarniadau yn achos staff ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn i'w gweld ar wefan AGIC www.hiw.org.uk

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9. Fis Awst, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gydlynu a hwyluso tri chyfarfod rhanbarthol, sef 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan ddod â chyrrff adolygu ac archwilio ynghyd er mwyn gallu rhannu gwybodaeth a'i bwydo i'r broses cadarnhau asesiadau Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol yn y symudiad tuag at fwy o rannu gwybodaeth ledled sefydliadau adolygu, a datblygu cynlluniau sicrwydd ac archwilio ar y cyd.

3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Conwy

3.1. Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Conwy ar 1 Ebrill 2003.

3.2. Mae'r BILI yn gyfrifol am nodi anghenion iechyd y Sir a, thros amser, gwella iechyd a lles y Sir trwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd a sefydliadau lleol eraill, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol.

Y prif swyddogaethau mae'r BILI yn eu cyflawni yw:

- Nodi anghenion iechyd a lles pobl Conwy.
- Gwella iechyd cymuned Conwy.
- Sicrhau Gwasanaethau Gofal Sylfaenol.
- Comisiynu a Phrynu Gwasanaethau Gofal Iechyd mewn Ysbytai ac yn y Gymuned.
- Gweithio mewn partneriaeth.
- Cael y cyhoedd i ymgysylltu.
- Llywodraethu Clinigol a Chorfforaethol.

3.2. Mae gan y BILI a Chyngor Sir Conwy ddyletswydd statudol i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth â sefydliadau lleol eraill i gynhyrchu strategaethau ar gyfer gwella iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y bobl sy'n byw yng Nghonwy.

3.3. Mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys 22 o Aelodau, Aelodau Cysylltiol a thri Aelod Cyfetholedig yn cynrychioli'r gymuned leol, y sector gwirfoddol, y cyngor sir a'r gwasanaeth iechyd yn lleol. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus chwe gwaith y flwyddyn.

4. Darganfyddiadau – Yn cynnwys meysydd Gwelliant ac Arfer Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1

Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1. Yn ôl asesiad y BILL o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S1.2. Roedd y BILL yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i ddatblygu ymwneud y cleifion a'r cyhoedd, ac yn eu plith mae:

- Is-grŵp Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI), sydd â Chyfarwyddwr Anweithredol yn Gadeirydd arno.
- Tîm Cyswllt PPI.
- Strategaeth PPI sy'n nodi cynlluniau parhaus y BILL. Mae'r strategaeth hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer 2007-2010.

S1.3 I sicrhau bod gofynion y ddeddfwriaeth yn cael eu bodloni o ran y safon hon, mae'r holl strategaethau, polisïau a gweithdrefnau y mae'r BILL yn eu rhoi ar waith yn cael eu cymeradwyo gan y pwyllgor perthnasol cyn cael cymeradwyaeth y Bwrdd, er enghraifft y Polisi copïo llythyron at gleifion.

S1.4. Mae'r BILL yn cyhoeddi arweiniad lleol '*Eich Arweiniad i Wasanaethau Iechyd Lleol*'. Mae hwn yn darparu gwybodaeth am sut y gall pobl ymwneud mwy â gwaith y BILL a dod i wybod mwy am y gwasanaethau y mae'r BILL yn eu darparu. Mae a wnelo'r Tîm Cyswllt PPI â rhwydweithio â grwpiau eraill ledled Gogledd Cymru.

S1.5. Fe wnaeth adborth oddi wrth y grŵp ffocws cleifion gadarnhau bod cleifion yn teimlo'u bod yn gallu mynegi eu barn i'r BILL.

S1.6. Gallwn gadarnhau asesiad y BILL ei fod yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 2

Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth;*
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol; a*
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1. Yn ôl asesiad y BILL o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr, ac yn **Ymarfer** ar lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol.

S2.2. Roedd y BILL yn gallu dangos ymwneud y Bwrdd â chynllunio a darparu gofal iechyd trwy:

- Ddatblygu ei Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (HSCWB) a'i rhoi ar waith. Mae'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd, ac mae asesiad newydd o anghenion yn cael ei lunio.
- Mae sicrhau bod gwasanaethau o fewn cyrraedd cyfartal i bawb yn elfen wedi'i blaenoriaethu o amcanion corfforaethol y BILL, e.e. fe wnaeth y broses asesu anghenion nodi pocedi o boblogaeth Conwy, yn enwedig gweithwyr dros dro, nad ydynt efallai yn gwybod sut i gyrchu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae'r Bwrdd hefyd yn cael adroddiadau misol ar dargedau cenedlaethol craidd y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid (SaFF).
- Anfonir cyfarwyddyd NICE a rhybuddion Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) at y contractwr perthnasol.

S2.3. Mae gan y BILL nifer o wahanol fecanweithiau ar waith ar gyfer monitro cynllunio a darparu gofal iechyd i'r boblogaeth, er enghraifft, Bwrdd Partneriaeth Strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Conwy a Grŵp Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae'r BILL yn aelod o ystod o grwpiau amlasiantaethol allweddol eraill, sy'n monitro cynllunio a darparu gwasanaethau gofal eilaidd. Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-Orllewin Cymru sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Mae staff yn y BILL yn monitro cynnydd targedau ar

gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd, a hefyd yn mynychu fforymau fel y Fforwm Cyngorol Deintyddol a'r Grŵp Fferyllfeydd Cymunedol, sy'n monitro targedau mynediad ar gyfer y contractwyr gofal sylfaenol.

S2.4. Fe wnaeth ein hymweliad arsylwi ddwyn sylw at y ffaith bod gan bobl ddiddordeb yn y BILL, y gwaith mae'n ei wneud a'r wybodaeth y mae'n gallu'i chynnig. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth bob amser yn cael ei rhaedru'n briodol i gleifion a'r cyhoedd.

S2.5. Er ein bod yn gallu cadarnhau asesiad y BILL ei fod yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, rydym yn ystyried mai **Ymateb** y mae ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae gwelliannau'n digwydd, ond nid yw hyn yn gyson ym mhob maes hyd yma.

Safon 3

Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1. Yn ôl asesiad y Bwrdd o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S3.2. Mae'r Bwrdd yn monitro ac yn derbyn adroddiadau ar y targedau mynediad brys (95% o gleifion i dreulio llai na phedair awr mewn adran damweiniau ac achosion brys ac ni ddylai unrhyw glaf aros am fwy nag wyth awr).

S3.3. Roedd y BILL yn cydnabod na wnaeth Ymddiriedolaeth GIG Conwy nac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-Orllewin Cymru gyflawni'r targed mynediad brys pedair awr ar gyfer 2006-2007.

S3.4. Mae staff yn y BILL yn monitro cynnydd targedau ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd, gan weithio'n agos gydag ymddiriedolaethau lleol a chontractwyr gofal sylfaenol. Mae staff hefyd yn mynychu nifer o fforymau, er enghraifft, y Grŵp Gofal Heb ei Drefnu a'r Fforwm Cyngorol Deintyddol. Maent hefyd yn chwarae rôl weithredol yn Nhîm yr Asiant Dros Newid sy'n arwain y broses Newid Gwasanaethau

a Chynllunio Effeithlonrwydd. Bellach, mae gan y BILI y protocolau ar waith i gynnig yr opsiwn gwasanaeth y tu allan i oriau i gleifion, lle bo'n briodol. Mae'r wybodaeth a ddarperir i gleifion o ran targedau brys yn gyfyngedig.

S3.5. Rydym yn cytuno ag asesiad y Bwrdd ei fod yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 4

Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:

- a. yn hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b. yn parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff; a*
- ch. yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S4.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy:

- Strategaeth Ystadau Gofal Sylfaenol y mae'r BILI a chontractwyr wedi'i datblygu. Ystyriwyd deddfwriaeth fel y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd wrth ei datblygu.
- Y BILI yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion statudol trwy strategaethau y mae'r Bwrdd wedi'u cymeradwyo.
- Llinellau atebolrwydd clir ar gyfer materion diogelwch, fel a nodir yn y Strategaeth Rheoli Risg.
- Y BILI yn cynnal Aseidiadau Effaith ar gyfer yr holl bolisiâu a gweithdrefnau, a bod â pholisiâu craidd ar waith sy'n cwmpasu gofynion statudol, gan gynnwys Cynlluniau Anabledd, Hil, a Chydraddoldeb.

S4.3 Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Iechyd a Diogelwch atebol, ac mae'n gyfrifol am ddiogelwch cleifion, defnyddwyr a staff. Mae yna hefyd ddau swyddog wedi'u henwebu, ac maent yn cynnal aseidiadau risg.

S4.4. Mae hyfforddiant iechyd a Diogelwch ar gael i holl staff BILI a staff wedi'u contractio, ac mae hyn yn cynnwys hyfforddiant gorfodol ar-lein ar gyfer Codi a Chario, Cyfarpar Sgrin Arddangos a Diogelwch Tân. Gall staff godi problemau a phryderon mewn nifer o ffyrdd; mae yna weithdrefn adrodd ar ddiwyddiadau ar waith, a briff tîm misol, lle gall staff godi cwestiynau a mynegi barn. Mae gan y BILI hefyd amrywiaeth o ddulliau monitro, gan gynnwys gofyn am adborth oddi wrth aelodau staff a chynnal sesiynau gyda buddgarfanau.

S4.5. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol ond rydym yn ystyried mai **Ymateb** yn unig y mae ar lefel Profiad y Defnyddiwr, gan mai tystiolaeth gyfyngedig oedd i ddangos dull cyson ym mhob maes.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S5.2. Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd o ran cynnal lleoliadau gofal iechyd trwy:

- Y Strategaeth Gofal Sylfaenol sy'n blaenoriaethu'r buddsoddiad ac yn cynllunio ar gyfer uwchraddio, ailadeiladu neu ailddatblygu safleoedd.
- Cyfarfodydd misol gyda rheolwyr practisau.
- Adolygiadau o bractisau Meddygon Teulu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau cynnal a chadw lleoliadau, safonau glanweithdra a'r risg o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd.
- Practisau deintyddol yn cwblhau adolygiadau Sicrhau Ansawdd.
- Cyhoeddi canllawiau Rheoli Heintiau i Gartrefi Gofal.

- Darparu hyfforddiant Rheoli Heintiau ddwywaith y flwyddyn gan ddefnyddio staff o'r Gymdeithas Gwarchod Meddygol i'w gyflenwi.

S5.3. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn derbyn adroddiadau ar heintiau a ddelir trwy ofal iechyd mewn lleoliad gofal eilaidd, ac mae hefyd yn cael adborth ar adolygiadau practisau Meddygon Teulu. Cynhaliwyd archwiliad Rheoli Heintiau mewn practisau Meddygon Teulu gan ddefnyddio pecyn cymorth a ddarparwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA). Mae cartrefi nyrsio'n cael eu monitro gan y tîm nyrsio sy'n cynnal yr asesiad, a byddai unrhyw bryderon yn cael eu codi â'r contractwr. Maent yn gweithio'n agos ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn hyn o beth.

S5.4. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 6

Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; a*
- c. yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth drafod a chytuno ar opsiynau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S6.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn gallu cydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol trwy:

- Dafleni gwybodaeth gyffredinol, a ddsberthir i gontractwyr gofal sylfaenol fel deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr yng Nghonwy, iddynt hwy eu dosbarthu i gleifion.

- Datblygu nifer o gynlluniau cydraddoldeb, gan gynnwys cynlluniau hil, anabledd a rhyw.
- Contract ar waith â Llinell Iaith y gall contractwyr annibynnol a staff y BILI ei defnyddio.
- Datblygu'r Fframwaith Strategol Gofal Hirdymor Lleol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan sicrhau bod cleifion/defnyddwyr yn cael yr wybodaeth briodol am eu cyflyrau a'u triniaeth, a'u bod yn gallu cael eu cynnwys yn y broses.

S6.3. Mae'r BILI yn comisiynu gwasanaeth â'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID) ar gyfer cyfieithu ac arwyddo.

S6.4. Fe wnaeth ein hymweliad arsylwi gadarnhau bod mecanweithiau ar waith, a nododd fod y BILI yn cydnabod gwahanol anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, perthnasau a'r cyhoedd. Fe wnaeth staff nodi y byddai angen o bosibl rhoi sylw i anghenion ieithyddol gwahanol yn y dyfodol, oherwydd y boblogaeth sy'n newid.

S6.5. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob lefel. Fodd bynnag, ystyriwn fod angen i'r BILI fonitro anghenion newidiol ei boblogaeth yn barhaus.

Safon 7

Mae'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S7.2. Mae'r BILI yn grymuso cleifion a defnyddwyr gwasanaeth i ymwneud â'u hopsiynau gofal a thriniaeth mewn nifer o ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Proses Asesu Unedig sy'n gweithio ar y cyd ag Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych.

- Adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar fonitro Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) Pobl Hŷn.
- Gweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy ar adnodd teleofal/teleiechyd newydd, sef menter i helpu i gefnogi annibyniaeth cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

S7.3. Camau sylweddol i ddatblygu a chefnogi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr â chyflyrau hirdymor. Mae'r BILI yn hybu'r Rhaglen Cleifion Arbenigol trwy'r Cydgysylltydd Cyflwr Hirdymor, Meddygon Teulu, Grwpiau Defnyddwyr, Nyrsys Practis a thafleuni gwybodaeth. Ei phwrpas yw helpu unigolion i ddysgu technegau a sgiliau newydd i reoli eu cyflwr.

S7.4. Mae'n amlwg bod y BILI yn gweithio'n agos â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr o ran cyflyrau hirdymor, a bod cefnogaeth ar gael i unigolion os bydd gofyn amdano. Er enghraifft, trwy'r Grŵp Polisi a Rheolaeth cyflyrau Hirdymor, Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrâu, sydd ag amrywiaeth o gynrychiolwyr defnyddwyr, ac sy'n cael ei annog gan pobl broffesiynol. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd o werthusiad systematig o effaith y mentrau hyn neu o welliannau i brofiad y defnyddiwr o ganlyniad.

S7.5. Felly rydym yn ystyried bod y BILI yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 8

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. *bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b. *bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. *yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr y gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a*
- ch. *bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S8.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i wella sut mae cleifion, gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a staff yn cael eu trin o ran urddas a pharch trwy'r dulliau canlynol:

- Monitro hanfodion Gofal mewn cartrefi gofal.
- Y Bwrdd yn cymeradwyo pob cynllun cydraddoldeb, a'r Gweithgor Cydraddoldeb y BILI yn eu monitro.
- Yn ystod eu cyfnod cynefino yn y BILI, y staff yn cael pecyn sy'n cynnwys adran ar gydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol, Polisi Cydraddoldeb, ac ati.
- Datblygu cyfarwyddyd ar Sicrhau Cydsyniad Deallus mewn Gofal Sylfaenol. Cyhoeddwyd y cyfarwyddyd hwn i holl gontractwyr gofal sylfaenol.
- Cytuno i weithredu yn ôl Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.

S8.3. Darperir hyfforddiant o ran urddas a pharch, cwynion a materion yn ymwneud â diogelu data ar gyfer staff y BILI, ond ni chyfeirir at hyfforddi staff gofal Sylfaenol.

S8.4. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, ond rydym yn ystyried mai **Ymateb** y mae ar lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. *bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet gytbwys; a*
- b. *bod gofynion personol, maethol, diwylliannol a chlinigol y cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth o ran deiet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S9.2 Mae tîm adolygu nyrsys y BILI yn adolygu ac yn asesu anghenion cleifion o ran maeth mewn cartrefi gofal. Hefyd, cytunir â chartrefi gofal ar gynlluniau maeth ar gyfer cleifion ag arnynt angen deietau arbenigol neu atodol. Mae'r BILI wedi darparu hyfforddiant ar gyfer staff cartrefi gofal mewn defnyddio offeryn asesu maeth. Ni chyfeiriwyd yn ymateb y BILI at sut y mae'n sicrhau bod darparwyr gofal eilaidd yn

bodloni'r safon hon. Ystyriwn y dylai BILlau fod yn monitro i sicrhau bod anghenion cleifion o ran maeth a deiet yn cael eu bodloni fel rhan o'u cyfrifoldebau comisiynu. Rydym yn ystyried mai **Ymateb** yn unig mae'r BILl ar bob un o'r tair lefel. Cyhoeddir cyfarwyddyd pellach ar rôl Byrddau Iechyd Lleol o ran sicrhau bod y safon hon yn cael ei bodloni yn barod at gyflwyniad y flwyddyn nesaf.

Safon 10

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

S10.1. Yn ôl asesiad y BILl o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S10.2. Roedd y BILl yn gallu dangos ei fod yn bodloni'r gofynion statudol o ran gwahaniaethu annheg yn erbyn pobl sy'n cael gofal iechyd, ar sail oed, rhyw, hil, anabledd, ethnigrwydd, crefydd neu dueddfryd rhywiol trwy:

- Fod â chynlluniau cydraddoldeb ar waith.
- Cynlluniau gweithredu'n cael eu monitro gan Weithgor Cydraddoldeb Byrddau Iechyd Lleol Siroedd Conwy a Dinbych ar y cyd.
- Strategaeth Iechyd Conwy, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Conwy, sy'n dwyn sylw at anghenion iechyd y gymuned.

S10.3. Mae gan y BILl nifer o ddulliau ar waith y mae'n eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth staff, er enghraifft mae'r holl staff newydd yn cael cyfnod cynefino lleol a chorfforaethol. Mae staff hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant hanfodol mewn ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Darperir sesiynau hyfforddi hefyd i staff dan gontract, ac mae llawlyfr staff ar gael i bawb.

S10.4. Mae grŵp cydraddoldeb Siroedd Conwy a Dinbych ar y cyd wedi'i sefydlu, ac mae hyn yn galluogi rhannu arfer da. Mae'r BILl hefyd yn aelod o grwpiau eraill, gan gynnwys Grŵp Cydraddoldebau Cymunedau Iechyd Gogledd Cymru a Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gogledd Cymru.

S10.5. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILl ei fod yn **Datblygu** ar bob lefel.

4.2 Canlyniadau Clinigol

Safon 11

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;*
- b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;*
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a*
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.*

S11.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S11.2. Mae gan y sefydliad systemau ar waith i sicrhau bod gofal clinigol a thriniaethau'n cael eu cynnal yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae gan y BILI Strategaeth Archwilio Clinigol BILI Siroedd Conwy a Dinbych ar y cyd.
- Cyfarwyddyd arfer gorau yn cael ei ledaenu i contractwyr, cartrefi nyrsio a gwasanaethau y tu allan i oriau.
- Mae cyfarwyddyd oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ac Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) yn cael ei adolygu gan is-grŵp effeithiolrwydd clinigol y BILI, ac yn cael ei archwilio lle bo'n briodol.
- Gwerthusiadau blynyddol Meddygon Teulu, sy'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd trwy'r Cyfarwyddwr Meddygol.
- Rhaglen hyfforddi a gyflwynir i'r Bwrdd i sicrhau bod sgiliau clinigwyr yn cael eu diweddarau.

S11.3. Y cydlynedd llywodraethu clinigol sy'n rheoli rhaglen archwilio clinigol y BILI, ac anogir contractwyr gofal sylfaenol i greu eu cynlluniau archwilio blynyddol eu hunain a rhannu'r canlyniadau â'r BILI pan fyddant wedi'u cwblhau. Mae pob contractwr annibynnol bellach wedi enwebu arweinwyr Llywodraethu Clinigol, ac mae hyfforddiant wedi'i gynnal ym mhob practis Meddygon Teulu. Mae'r grŵp

Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) lleol yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff meddygol o ran gwerthuso. Mae Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych yn darparu rhaglen hyfforddi mân lawfeddygaeth, sy'n galluogi clinigwyr i gynnal adolygiadau cymheiriaid.

S11.4. Rhoddir gwybod i gleifion am arfer gorau trwy gyfarwyddyd NICE a thafleuni gwybodaeth i gleifion. Gall clinigwyr hefyd argraffu gwybodaeth berthnasol i gleifion pan fo'n briodol. Rhennir archwiliadau addas hefyd â chleifion, er enghraifft, mae cleifion yn cael adborth ar arolwg cleifion blynyddol Meddygon Teulu trwy wefannau practisau, fforymau cleifion a chylchlythyrau.

S11.5. Gallwn gytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 12

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. *yn cydymffurfio ag arfarniadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. *yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c. *yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; a*
- ch. *yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.*

S12.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S12.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae'r Bwrdd yn hyderus bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sy'n cydymffurfio ag arfer da a chanllawiau

enedlaethol, gan ei fod yn cael cofnodion y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol sy'n cynnwys manylion ynghylch y Rhaglen Ymweld Llywodraethu Clinigol.

- Mae Cynllun Gweithredu Conwy Wanless yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth. Cynhyrchwyd hwn ar y cyd â'r GIG, yr Awdurdod Lleol a'r Sector Gwirfoddol. Roedd yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (HSCWBS).
- Mae yna fframwaith Llwybrau Gofal Integredig cytunedig yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-Orllewin Cymru, ac mae ganddo flaenoriaethau cytunedig a rhaglen gyflenwi.

S12.3. Mae'r BILI yn rhoi cefnogaeth ac yn cynnig ystod eang o hyfforddiant i wneud staff yn ymwybodol o arfer da a chanllawiau cenedlaethol. Cynhelir asesiadau hefyd er mwyn darganfod beth yw anghenion hyfforddi'r staff. Mae'r rhain yn cynnwys dosbarthu holiaduron i nyrsys practis yn flynyddol.

S12.4. Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth wedi cael budd o waith integredig fel Safle Gofal Integredig Plas Menai. Mae'r safle hwn yn cynnwys gofal sylfaenol, nyrsys ardal a hefyd gwasanaethau cymdeithasol. Yn dilyn ein hymweliad arsylwi, teimlwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn digwydd, ond nid oedd llawer o wir lwybrau gofal integredig.

S12.5 Mae gan y BILI nifer o drefniadau partneriaethau effeithiol ar waith, gan gynnwys yr awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol. Rydym yn ystyried ei fod yn **Datblygu** ar bob lefel, gan nad oes tystiolaeth o welliant parhaus.

Safon 13

Bydd gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr, ac yn **Ymarfer** ar lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol.

S13.2. Mae mecanweithiau ar waith i sicrhau bod gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson, megis:

- Rhoddwyd cytundeb ar waith â sefydliad allanol ar gyfer darparu gwasanaethau rheoli ymchwil. Cyflwynir adroddiadau bob chwarter yn ymwneud â gweithgaredd ymchwil i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, yna anfonir y cofnodion hyn ymlaen at y Bwrdd.
- Y Cyfarwyddwr Meddygol yw'r arweinydd ymchwil a datblygu yn y BILI, ac mae'r Cydlynnydd Llywodraethu Clinigol yn delio â materion llywodraethu ymchwil o ddydd i ddydd.
- Cyflwynir adroddiadau bob chwarter yn ymwneud â gweithgaredd ymchwil a llywodraethu i'r pwyllgor llywodraethu clinigol. Yna mae'r Bwrdd yn cael y cofnodion i'w hadolygu.

S13.3. Anfonwyd poster at bob contractwr gofal sylfaenol yn gofyn iddynt roi gwybod i'r BILI os oedd unrhyw gontractwr yn ymwneud ag ymchwil. Anfonir hysbysiad at y Cydlynnydd Llywodraethu Clinigol, a gallant sicrhau bod gweithdrefnau wedi'u dilyn. Fe wnaeth yr ymweliad Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QOF) nodi y bu problem â hyfforddi sgiliau gwerthuso beirniadol mewn arfer cyffredinol.

S13.5. Er ein bod yn gallu cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr, rydym yn ystyried mai **Ymateb** yn unig y mae'r BILI ar lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol.

4.3 Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1. Yn ôl asesiad y BILL o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S14.2. Roedd y BILL yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau tuag at y safon hon trwy'r canlynol:

- Cymeradwyo Polisi Iechyd a Diogelwch sy'n nodi'r llinellau cyfrifoldeb yn y sefydliad ar gyfer iechyd a diogelwch a'r trefniadau sydd ar waith.
- Y Strategaeth Rheoli Risg, sy'n manylu ar sut fydd risg yn cael ei rheoli ac sy'n ymgorffori arfer gorau.
- Adroddiadau'r Bwrdd ar reoli risg a'r Bwrdd yn cael cofnodion o gyfarfodydd yr is-grŵp rheoli risg.

S14.3. Cynhelir hyfforddiant ar gyfer iechyd a diogelwch yn rheolaidd, ac mae ar gael i'r holl staff, contractwyr, cartrefi nyrsio a chartrefi gofal yng Nghonwy. Mae hyfforddiant ar ofynion deddfwriaethol a rheoli risg megis diogelu data, Caldicott ac adrodd ar ddigwyddiadau hefyd wedi'i ddarparu i staff. Mae arweiniad ar waith i staff ar y strategaeth a'r broses rheoli risg, a chynhaliodd y BILL ddadansoddiad anghenion hyfforddi yn ddiweddar i nodi anghenion datblygu ar gyfer staff. Darperir ffolderi Iechyd a Diogelwch i'r holl contractwyr i ddarparu cyfarwyddyd iddynt ar ofynion deddfwriaethol ac arfer da.

S14.4. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILL ei fod yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond rydym yn ystyried mai **Datblygu** y mae ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, gan nad oes tystiolaeth o welliant parhaus, er bod cymhwysiad ymarferol ledled y sefydliad.

Safon 15

Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; a*
- ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1. Yn ôl asesiad y BILL o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S15.2. Roedd y BILL yn gallu dangos bod y Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau y gall cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr ddarparu adborth ar eu profiadau, a bod gweithdrefnau cwyno ar waith:

- Hysbysebiri y broses gwynion ar wefan y BILL.
- Dosberthir taflen gwynion trwy sawl sefydliad gwahanol, gan gynnwys llyfrgelloedd a'r sector gwirfoddol.
- Mae yna arweiniad lleol – 'Gwella Iechyd yng Nghymru'. Mae hwn ar gael yn ddwyieithog, ar ffurf sain a phrint bras, ac mae ieithoedd eraill ar gael ar gais.
- Mae gan y BILL Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) â Llinell Iaith i ddarparu gwasanaeth cyfieithu.
- Caiff pob cwyn ei hadolygu bob chwarter, a'i monitro o ran tueddiadau a gwersi a ddysgwyd. Fodd bynnag, nid yw'r BILL yn dadansoddi cwynion ar sail hil neu anabled.

S15.3. Mae mecanweithiau ar waith ar gyfer rhoi adborth i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr. Pan mae'r BILL wedi ymateb yn foddhaol i gŵyn, anfonir holiadur bodlonrwydd cleifion at yr achwynydd, yn gofyn am adborth, a defnyddir cardiau sylwadau mewn digwyddiadau cyhoeddus i gasglu adborth. Fe wnaeth cleifion a fynychodd y grŵp ffocws ddwyn sylw at y ffaith y gwnaed gwelliannau o ran adborth, yn sgil ymatebion a gafwyd o holiaduron ac arolygon.

S15.4. Rydym yn gallu cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ac rydym hefyd yn ystyried mai **Datblygu** y mae ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, gan nad oes tystiolaeth o welliant parhaus, er bod cymhwysiad ymarferol ledled y sefydliad.

Safon 16

Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;*
- b. i adrodd digwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. dangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; a*
- ch. sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.*

S16.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar lefel Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S16.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae gweithdrefn adrodd ar ddigwyddiadau ar waith.
- Adroddir ar ddigwyddiadau i'r NPSA wrth i'r BILI ddysgu amdanynt.
- Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar ddigwyddiadau. Mae'r Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Chwynion ar y Cyd yn gyfrifol am adolygu adroddiadau ar ddigwyddiadau, tueddiadau a newidiadau a wnaed, gan gynnwys lledaenu gwersi a ddysgwyd.
- Mae Hwylusydd Llywodraethu Clinigol y BILI yn gyfrifol am ddelio â digwyddiadau, a dosberthir hysbysiadau Diogelwch Cleifion i holl aelodau'r Bwrdd, staff a chontractwyr.
- Mae'r Is-grŵp Effeithiolrwydd Clinigol yn gyfrifol am adolygu, gweithredu a dosbarthu canllawiau clinigol cenedlaethol megis rhybuddion NICE ac NPSA.

S16.3. Mae'r BILI yn darparu hyfforddiant i staff ar asesiadau risg, adrodd ar ddigwyddiadau a dadansoddi gwraidd y broblem. Darperir manylion cyswllt i staff pe bai arnynt angen cyfarwyddyd a chefnogaeth wrth ddelio ag unrhyw ddigwyddiad, ac fe'u hanogir i archwilio a graddio'r digwyddiad yn unol â'r Strategaeth Rheoli Risg. Mae'r BILI hefyd yn lledaenu dysgu lleol a chenedlaethol ar gyfer staff a chontractwyr.

S16.4. Fe wnaeth ein hymweliad arsylwi gadarnhau bod llawer o'r mecanweithiau hyn ar waith, bod staff yn ymwybodol o'r prosesau ffurfiol ar gyfer codi materion sy'n achosi pryder, a bod strwythur ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth, h.y. gwersi a ddysgwyd.

S16.5. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, ac yn **Ymarfer** ar lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 17

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrrff eraill.

S17.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S17.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo nifer o bolisiâu sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, gan gynnwys polisiâu lleol a pholisiâu Cymru Gyfan, er enghraifft, Diogelu Plant, Strategaeth Amddiffyn Plant, a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.
- Mae arweiniad ar waith ar gyfer Trefniadau Amddiffyn Plant mewn practisau Deintyddol.
- Mae Protocolau Fforymau Gogledd Cymru Amddiffyn Plant ar waith i hybu rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau.
- Mae'r BILI yn un o naw llofnodwr i bolisi Gogledd Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), ac mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau ar

ddigwyddiadau POVA. Mae llofnodwyr eraill yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, Heddlu Gogledd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

S17.3. Y Cyfarwyddwr Nyrsio yw'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer Diogelu Plant ac mae'n gynrychiolydd ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Mae'r BILI wedi mabwysiadu'r Strategaeth Hyfforddiant Amddiffyn Plant. Mae hyfforddiant Amddiffyn Plant ar gael ar dair lefel, ac mae rhaglen dreigl hefyd ar waith ar gyfer hyfforddiant POVA. Mae hwn ar gael i holl staff cartrefi gofal a staff iechyd a gofal cymdeithasol.

S17.4. Cadarnhaodd ein hymwelid â'r BILI fod cofnodion yn cael eu cadw a'u cynnal ar gyfer staff sy'n mynychu hyfforddiant amddiffyn plant. Roeddem hefyd yn gallu nodi bod staff y BILI wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant, ond nifer cyfyngedig o staff yn unig oedd wedi cael hyfforddiant POVA. Mae'r BILI yn ariannu gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, a gwblheir ar gyfer staff newydd sy'n cael eu rhoi ar y rhestr Perfformiad Meddygol, y rhestr Perfformiad Deintyddol a'r rhestr Perfformiad Optegol.

S17.5. Er ein bod yn gallu cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol, rydym yn ystyried mai **Datblygu** yn unig y mae'r BILI ar lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr, am y rhesymau y manylir arnynt uchod.

Safon 18

Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S18.2. Mae gan BILlau Gogledd Cymru ddull grŵp o ddelio â digwyddiadau mawr, gyda phob BILI yn cymryd cyfrifoldeb am y rhanbarth ar sail rota chwe wythnos. Mae swyddog argyfwng o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cefnogi hyn, ynghyd â Chynllun Digwyddiadau Mawr Gogledd Cymru. Mae'r NPHS hefyd yn darparu adnoddau, cefnogaeth a gwybodaeth.

S18.3. Mae staff yn cymryd rhan mewn ymarferion ffug, fel ymarfer 'Winter Willow' a gynhaliwyd yn gynharach eleni, ac a oedd yn delio â senario achosion o Ffliw Pandemig. Mae'r gwersi a ddysgwyd wedi'u hymgorffori yng Nghynllun Gweithredol Ffliw Pandemig y BILI. Yn dilyn pob ymarfer, cynhelir sesiwn adborth â staff, i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, a darperir hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff.

S18.4. Rydym yn ystyried bod y BILI yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;*
- b. bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; a*
- ch. bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S19.2. Mae'r BILI wedi buddsoddi mewn cyfarpar ar gyfer practisau Meddygon Teulu, ac mae'r Rhaglen Ymweld Llywodraethu Clinigol yn darparu sicrwydd bod practisau'n cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol.

S19.3. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol wedi dirprwyo cyfrifoldeb am sicrhau bod pob gweithdrefn rheoli heintiau a phob gweithdrefn iechyd a diogelwch yn cael ei rheoli'n dda. Darperir hyfforddiant Rheoli Heintiau a hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ar gyfer yr holl staff a chontractwyr, ac mae hyn yn ymgorffori croeshalogi a diheintio dyfeisiadau meddygol. Cynhaliwyd archwiliad rheoli heintiau hefyd mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS).

S19.4. Mae gan y BILI strategaeth ragnodi ar waith sydd wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd. Mae BILI Conwy'n gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-Orllewin Cymru. Mae yna hefyd Hwylusydd Rheoli Meddyginiaethau mewn swydd sy'n cefnogi'r practisau Meddygon Teulu, fferyllfeydd cymunedol a chartrefi gofal er mwyn gwella rhagnodi.

S19.5. Mae gan y BILI gyfrifoldeb i sicrhau bod gwastraff arbennig gan gontractwyr penodol yn cael ei waredu'n gywir. O ran hyn, mae'r BILI wedi cyfarfod ag asiantaeth yr amgylchedd, ac mae ganddo contract ar waith i sicrhau bod gwastraff fferyllol yn cael ei waredu yn unol â deddfwriaeth. Mae'r BILI hefyd wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i fferyllfeydd yn hyn o beth. Mae Contractwyr Gofal Sylfaenol yn gyfrifol am hyfforddi eu staff eu hunain, ond mae'r BILI yn darparu hyfforddiant a diweddariadau pan fydd deddfwriaeth yn newid.

S19.6. Rydym yn gallu cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 20

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S20.2. Mae'r BILI wedi ymrwymo i sicrhau bod staff yn fodlon ac yn cael eu hannog i wella gwasanaethau:

- Mae amcanion blynyddol y mae'r Bwrdd wedi cytuno arnynt yn cael eu hadlewyrchu yn amcanion y Prif Weithredwr.
- Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau ar berfformiad gan gynnwys cynnydd yn erbyn amcanion cenedlaethol a lleol y BILI.
- Mae gan aelodau staff gynllun datblygu personol, ac maent ar hyn o bryd yn cwblhau'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau (KSF) yn unol â'r Agenda ar gyfer Newid.

- Mae'r BILI yn cynnal Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi ar gyfer staff i nodi meysydd ar gyfer datblygiad.
- Mae polisi Adnoddau Dynol 'Tegwch yn y Gwaith' BILI Cymru Gyfan yn cefnogi staff.

S20.3. Mae'r BILI wedi cynnal arolwg staff, a gwnaed nifer o newidiadau i wella'r modd y mae'r sefydliad yn gweithio o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys adolygu Cynllun Iaith Gymraeg y BILI, adolygu'r llawlyfr staff a datblygu gwefan i gyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd. Anogir staff i wneud gwelliannau trwy fforymau staff a ffyrdd eraill o gyfathrebu, e.e. trwy gyfarfodydd tîm, sesiynau briffio a chyfarfodydd staff.

S20.4. Dywedodd staff wrthym eu bod yn ystyried eu bod wedi'u grymuso i wneud gwelliannau yn eu maes eu hunain, a bod y sefydliad yn agored i awgrymiadau.

S20.5. Rydym yn gallu cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol, ond rydym yn ystyried mai **Datblygu** y mae'r BILI ar lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr, gan nad oes tystiolaeth o welliant parhaus.

Safon 21

Mae cyrff gofal iechyd:

- yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; a*
- yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S21.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Cynhelir holl waith recriwtio a dethol y BILI trwy'r Weithdrefn Gweithredu Safonol (SOP) sydd wedi'i datblygu gan adran Adnoddau Dynol y Ganolfan Gwasanaethau Busnes (BSC).
- Mae'n rhaid i ymarferwyr Deintyddol a Meddygol sydd am ddarparu gwasanaethau wneud cais i gael eu cynnwys ar y Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol neu Feddygol.
- Manylir ar agweddau ar gyflogaeth sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Polisiâu Adnoddau Dynol.

S21.3. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith wedi cydnabod y BILI am ei ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb fel cyflogwr. Maent wedi cael y Symbol Anableded 'tic dwbl' a roddir i gyflogwyr sydd wedi cytuno i weithredu i fodloni pum ymrwymiad o ran cyflogi, cadw, hyfforddi a datblygu gyrfa gweithwyr anabl.

S21.4. Yn ystod ein hymweliad arsylwi, gwelwyd bod gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) wedi'u cynnal ar gyfer nifer o'r staff, ond nid ar gyfer pob un ohonynt.

S21.5. Rydym yn gallu cytuno â'r BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond rydym yn ystyried ei fod yn **Datblygu** hefyd ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, gan nad yw ymateb y BILI yn dangos bod mecanweithiau sicrhau'r Bwrdd ar waith ar gyfer y safon hon.

Safon 22

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff:

- yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S22.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Dilyn Gweithdrefnau a Pholisïau Recriwtio a Dethol Cymru Gyfan yn achos penodiadau a wneir yn y BILI.
- Cynnal Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi Rheoli Risg pob 12 mis.
- Adolygu practisau Meddygon Teulu fel rhan o'r broses Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QOF).
- Bod ag Is-grŵp Hyfforddi a Datblygu sy'n bwydo i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.
- Nodi anghenion datblygu parhaus trwy'r broses werthuso.

S22.3. Mae gofyn i'r holl staff ymgymryd â chynllunio datblygu personol yn flynyddol, ac mae'r holl staff yn gweithio tuag at gwblhau eu hamlinelliad Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau (KSF) ar hyn o bryd. Mae staff a chontractwyr y BILI hefyd yn derbyn calendr hyfforddi a datblygu i staff er mwyn iddynt fynychu digwyddiadau priodol.

S22.4. Fel rhan o'n hymweliad â'r BILI, fe wnaethom gadarnhau bod mwyafrif y staff wedi cael gwerthusiad yn y 12 mis diwethaf. Fe wnaeth staff gadarnhau eu bod wedi cael gwybodaeth am gyrsiau hyfforddi, a'u bod yn cael eu hannog i fod yn rhagweithiol ac yn cael cefnogaeth oddi wrth eu rheolwyr. Fodd bynnag, gan nad yw cyflwyniad y BILI yn cynnwys tystiolaeth o welliant parhaus, gallwn ystyried bod y BILI yn **Datblygu** yn unig ar bob un o'r tair lefel.

Safon 23

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- a. *brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle; a chan*
- b. *rhaglenni datblygu sefydliadau a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr, ac yn **Ymarfer** ar lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol.

S23.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mabwysiadu Polisi Chwythu'r Chwiban, sy'n berthnasol i staff a chontractwyr annibynnol.
- Nodi aelod o'r Bwrdd nad yw'n Swyddog fel cyswllt ar gyfer staff.

S23.3. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chwythu'r chwiban wedi'u cynnwys yn rhaglen gynefino'r BILI, ac yn y Rhaglen Gynefino Llywodraethu Clinigol ar gyfer contractwyr. Mae staff a chontractwyr hefyd yn cael sesiynau briffio a sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth ar y prosesau y gallant eu defnyddio i fynegi unrhyw bryderon y gallai fod ganddynt o ran cyflenwi gwasanaeth, triniaeth neu reolaeth.

S23.4. Mae staff yn cael cefnogaeth i ddilyn rhaglenni datblygu personol fel cwrs gradd Meistr a Thystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) mewn Busnes. Mae'r BILI hefyd wedi cael dyfarniad Safon Aur Iechyd Corfforaethol ar gyfer y tair blynedd diwethaf. Pan wnaethom ymweld â'r BILI, roedd y staff yn bositif ynghylch y gefnogaeth a roddir iddynt, gan ddweud wrthym eu bod yn cael eu hannog i fod yn rhagweithiol o ran dilyn yr hyfforddiant a oedd ar gael iddynt. Am y rhesymau hyn, rydym yn gallu cytuno ag asesiad y Bwrdd ei fod yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr, ac yn **Ymarfer** ar lefel Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol.

Safon 24

Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a*
- b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S24.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae'r BILI yn rhan o Bartneriaeth Strategol ar gyfer Iechyd a Lles gyda Chyngor Bwrdeistref Conwy.
- Mae'r BILI yn bartner statudol ar y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, yn ogystal â bod yn aelod o'r Bartneriaeth Strategol Leol.

S24.3. Roedd enghreifftiau o gydweithio'n cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl ar y cyd, Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig, a Gwasanaethau Gofal Canolraddol Conwy.

S24.4. Mae'r Rhaglen Cleifion Arbenigol yn llwyr weithredol yng Nghonwy, ac mae hyn yn galluogi unigolion i reoli eu gofal eu hunain, ac yn addysgu sgiliau a thechnegau newydd iddynt. Mae'r rhaglen hon wedi cael effaith bositif ar unigolion.

S24.5. Gallwn gytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 25

Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S25.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae Cyfarwyddwr Cyllid BILI Conwy yn cadeirio Grŵp Technoleg a Rheoli Gwybodaeth (IM&T) BILiau Gogledd Cymru. Cyflwynir cofnodion y grŵp hwn ynghyd â chofnodion grŵp IM&T BILI Conwy i'r Pwyllgor Archwilio.
- Mae'r grŵp IM&T yn darparu sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau staff o bob cyfarwyddiaeth a chynrychiolaeth o grwpiau fel y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS), gofal sylfaenol a fferylliaeth.
- Strategaeth a chynllun gwaith IM&T.

- Mabwysiadu nifer o bolisiâu i sicrhau bod systemau effeithiol ar waith, polisi diogelwch IM&T, gweithdrefnau a Pholisi Deddf Diogelu Data a'r Polisi Corfforaethol ar Reoli Cofnodion.

S25.3. Mae gan y BILI gynllun hyfforddi a datblygu cynhwysfawr ar gyfer staff BILI a phractisau Meddygon Teulu. Mae practisau Meddygon Teulu'n hyfforddi staff y practis ar raglen dreigl, ac yn cysylltu â'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes (BSC) i sicrhau bod hyfforddiant cyfredol yn cael ei gynnal. Yna mae'r BILI yn cael y newyddion diweddaraf am yr hyfforddiant trwy'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Mae hyfforddiant yn y BILI yn cael ei gyflenwi trwy sesiynau briffio tîm a chyfarfodydd y gyfarwyddiaeth, ac mae hyfforddiant ar wybodaeth benodol hefyd ar gael. Mae diogelwch hefyd yn agwedd bwysig, a chyflwynir adroddiadau diogelwch rheolaidd trwy'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Mae gofyn i'r holl staff lofnodi Polisiâu Diogelwch IM&T, ac mae gofyn i staff dros dro lofnodi cytundeb cyfrinachedd a diogelwch.

S25.4. Er mwyn sicrhau cysonder a manwl gywirdeb manylion cleifion, mae'r BILI yn gweithio'n agos â gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ac mae ganddo raglen dreigl tair blynedd ar waith i fapio gwybodaeth y gellir adnabod cleifion ohoni. Mae'r BILI hefyd wedi ymuno â sefydliadau eraill ac wedi mabwysiadu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (HSCWBS).

S25.5. Rydym yn ystyried bod y BILI yn **Datblygu** ar bob lefel.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol yn eu lle i sicrhau:

- a. bod y sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddarau'r wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; a*
- b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S26.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae Polisi Rheoli Cofnodion ar waith, ynghyd â pholisïau Rhyddid Gwybodaeth, diogelu data, mynediad at gofnodion ieched ac e-bost.
- Y Cyfarwyddwr Cyllid yw'r Swyddog diogelwch TG a Diogelu Data.
- Mae Rheoli Cofnodion yn rhan o gylch gorchwyl y grŵp IM&T.
- Mae'r BILI yn gweithio mewn partneriaeth â Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gogledd Cymru i ddatblygu a chyflenwi rheolaeth gyson ar gofnodion.

S26.3. Darperir hyfforddiant ar reoli cofnodion i staff newydd yn ystod eu cyfnod cynefino, ac mae hefyd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth rheolaidd ar gyfer staff trwy'r sesiynau briffio staff. Mae rheoli cofnodion yn cael ei fonitro trwy'r dangosyddion perfformiad allweddol strwythuredig bob chwe mis, ac yna adroddir ar hyn i'r grŵp IM&T a'r Pwyllgor Archwilio. Cynhelir sesiynau 'clirio' corfforaethol hefyd bob chwe mis, i annog rheoli cofnodion yn dda a chydymffurfio â'r polisi. Cynhelir archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod cofnodion yn cael eu rheoli'n briodol.

S26.4. Gallwn gytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da yn eu lle sydd:

- a. *yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b. *yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. *yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;*
- ch. *yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac*
- d. *yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau ieched a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S27.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Bwrdd y BILI sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad.
- Mae Rheolau Sefydlog y BILI yn amlinellu trefniadau llywodraethu'r BILI.
- Mae yna dri phwyllgor statudol yn y BILI: y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol.
- Mae Aelod o'r Bwrdd nad yw'n Swyddog yn cadeirio pob un o Bwyllgorau'r BILI.
- Mae Safonau Cynnal Busnes wedi'u rhoi i'r holl staff i sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu cynnal yn briodol.
- Polisi Mynegi Pryderon.
- Mae yna drefniadau rheoli risg effeithiol ar waith. Daw sicrwydd ynglŷn â'r trefniadau rheoli risg o waith archwilio mewnol ac allanol.
- Y strategaeth Rheoli Risg sy'n diffinio'r dull o drin a rheoli risgiau ac adroddir ynghylch y prif risgiau i'r Bwrdd, er mwyn galluogi monitro sut mae'r sefydliad yn ymateb i risg ac yn ei rheoli.

S27.3. Mae staff yn ymwybodol o drefniadau adrodd ar lywodraethu: gwahoddir holl staff y BILI, contractwyr a'u staff hwythau i fynychu cyflwyniad undydd ar lywodraethu clinigol, ac mae'r holl bolisiâu llywodraethu ar gael ar y cyfeiriadur cyffredinol, lle maent yn cael eu storio. Mae'r BILI wedi gwneud gwaith i sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn glir ac ar waith, ac rydym yn gallu cadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar bob lefel.

Safon 28

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- b. *yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; a*
- c. *yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S28.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae gan y BILI Strategaeth Llywodraethu Clinigol.
- Cynllun Treigl Datblygu Llywodraethu Clinigol Siroedd Conwy a Dinbych ar y cyd, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd.
- Fel rhan o'r strwythur Llywodraethu Clinigol, mae nifer o grwpiau wedi'u sefydlu sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae'r rhain yn cynnwys y Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Chwynion ac Is-grŵp Archwilio Clinigol BILI Siroedd Conwy a Dinbych ar y Cyd.

S28.3. Caiff strategaethau, polisïau a gweithdrefnau eu datblygu trwy ymgynghori â staff. Y Tîm Llywodraethu Clinigol ar y Cyd sy'n cynhyrchu'r Cynllun Gweithredu Llywodraethu Clinigol. Er ei fod yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, sy'n cynnwys aelodau o gyfarwyddiaethau eraill, nid ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'i ddatblygiad. Mae BILI Conwy a BILI Sir Ddinbych, mewn partneriaeth â'u practisau, wedi datblygu Proses Adolygu Ansawdd Blynyddol, a ymgorfforodd Hunanasesiad Practis o ran Llywodraethu Clinigol, sy'n caniatáu i'r practis nodi'i gryfderau a'i wendidau. Yna datblygir cynlluniau gwella a'u monitro. Mae prosesau tebyg wedi'u datblygu ar gyfer deintyddiaeth a fferylliaeth fel ei gilydd. Felly rydym yn gallu cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

4.4. Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:

- a. *drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b. *drwy sicrhau bod eu polisiâu a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S29.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Y strwythur Bwrdd Partneriaeth Strategol a nifer o bartneriaethau eraill sydd bellach ar waith.
- Mae BILlau Siroedd Conwy a Dinbych hefyd wedi sefydlu Tîm Lleol Iechyd y Cyhoedd (LPHT) ar y cyd.
- Roedd yr NPHS wedi ymgysylltu â'r HSCWBS yn ystod y broses Asesu Anghenion, a hefyd wrth ddatblygu'r strategaeth.

S29.3. Gwnaeth y cyfnod ymgynghori ar gyfer asesu anghenion alluogi pobl Conwy i gyfrannu eu syniadau o ran anghenion iechyd a lles y gymuned. Gwnaeth hyn sicrhau bod yr asesiad o anghenion a'r HSCWBS yn adlewyrchu anghenion sydd wedi'u nodi'n lleol, ac yn blaenoriaethu materion pwysig sy'n berthnasol i'r boblogaeth. Roedd paratodau ar gyfer datblygu Strategaeth HSCWB 2008-2011 yn cynnwys mewnbyn oddi wrth LPHT Siroedd Conwy a Dinbych yn rhannol trwy gyfarfodydd y Fforwm Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

S29.4. Rydym yn gallu cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol ac rydym yn ystyried ei fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 30

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac*
- b. *yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S30.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i roi sylw i'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae'r BILI wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) ar ddiogelu iechyd rhwng yr NPHS a BILlau.
- Mae nifer o Grwpiau Gwella Iechyd ar waith, sy'n cynnwys y Grŵp Tybaco, Grŵp Pobl Hŷn a'r Fforwm Gordewdra.
- Mae Rhaglenni Iechyd hefyd ar waith, fel 'Smokebugs' (clwb di-fwg ar gyfer pobl ifanc) a Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn.

S30.3. Mae'r LPHT wedi datblygu cynllun blynyddol sy'n cynnwys blaenoriaethau iechyd cyhoeddus cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau y cynhelir rhaglenni iechyd a rhaglenni diogelu iechyd lleol sy'n adlewyrchu cyfarwyddyd cenedlaethol.

S30.4. Gwnaeth aelod o'r LPHT arwain ar gyflenwi ymgyrchoedd a'u rhoi ar waith i godi ymwybyddiaeth leol o'r themâu sydd wedi'u cynnwys yn Her Iechyd Cymru.

S30.5. Nid ydym yn gallu cytuno ag asesiad y BILI, ac rydym yn ystyried ei fod yn **Datblygu** ar bob lefel, gan nad oes tystiolaeth o welliant parhaus.

Safon 31

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- b. *yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd; a*
- ch. *yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1. Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32

Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1. Yn ôl asesiad y BILI o'i hun, mae'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar lefel Canlyniadau Clinigol/Gweithredol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S32.2. Dyfarnwyd y Safon Aur i'r BILI yn 2005, ac mae'r gweithgor ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer ailasesu ym mis Mawrth 2008. Gan fod y BILI wedi ennill y Safon Aur, rydym yn ystyried ei fod yn **Ymarfer** ar y tair lefel.

Gellir gweld crynodeb yn Atodiad 2 o lefelau aeddfedwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon yn ôl asesiad BILI Conwy trwy ei hunanasesiad, ac yn ôl AGIC yn dilyn gwerthuso a rhoi systemau ar brawf.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae gofyn i BILI Conwy gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Bydd Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cytuno ar y cynllun hwn, a bydd yn monitro ei weithredu fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd ar waith ar gyfer GIG Cymru. Bydd hwn ar gael ar wefan y BILI.

5.2. Dros y misoedd sydd i ddod, bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio a gwella'r offeryn asesu ar gyfer y dyfodol ac i unioni proses hunanasesu Safonau Gofal Iechyd â'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan ym mis Tachwedd 2007, a bydd hwn yn cyfuno'r darganfyddiadau o adroddiadau unigol mewn trosolwg o'r sefyllfa ledled Cymru. Bydd hyn yn dwyn sylw at themâu allweddol a'r meysydd risg y bydd y broses asesu Safonau Gofal Iechyd yn dwyn sylw atynt.

Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd

	Yn ymwybodol	Yn ymateb	Yn datblygu	Yn ymarfer	Yn arwain
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion i fynd i'r afael â nhw ond ni allant ddangos penderfyniadau/ camau i fynd i'r afael â nhw.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol sydd â thystiolaeth o arferion da ledled y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ledled y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy roi arferion arloesol ar waith a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, gan alluogi cynaliadwyedd hirdymor i gael ei wireddu.
Gweithredol	Mae ymwybyddiaeth o'r materion i fynd i'r afael â nhw, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â nhw.	Mae cydnabyddiaeth o'r materion allweddol i fynd i'r afael â nhw a nodwyd amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn mynd i'r afael â nhw.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ledled y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda'n cael eu rhoi ar waith ledled y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arferion arloesol, a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol er y datblygwyd dulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ledled y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth eglur o arferion da, y gellir eu rhannu.

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon

Safon 1

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 2

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↓	Yn ymateb

Safon 3

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↓	Yn datblygu

Safon 4

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↓	Yn ymateb

Safon 5

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 6

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 7

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu

Safon 8

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↓	Yn ymateb
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↓	Yn ymateb

Safon 9

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↓	Yn ymateb
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↓	Yn ymateb
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↓	Yn ymateb

Safon 10

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 11

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 12

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu

Safon 13

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn ymateb
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 14

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer

Safon 15

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 16

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Profiad y Defnyddiwr	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer

Safon 17

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu

Safon 18

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 19

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer

Safon 20

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu

Safon 21

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 22

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu

Safon 23

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 24

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 25

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu

Safon 26

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↔	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 27

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Profiad y Defnyddiwr	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer

Safon 28

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 29

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu

Safon 30

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn ymarfer	↓	Yn datblygu
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↔	Yn datblygu



Safon 31

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	H/B		
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	H/B		
Profiad y Defnyddiwr	H/B		


Safon 32

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yn ymarfer	↔	Yn ymarfer
Canlyniadau Clinigol/ Gweithredol	Yn datblygu	↑	Yn ymarfer
Profiad y Defnyddiwr	Yn datblygu	↑	Yn ymarfer


**Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Profiad y Defnyddiwr,
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol, a Chorfforaethol**




**Sgorau Aeddfedrwydd Lefel Canlyniadau
Gweithredol / Clinigol**



Sgorau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr



Yn Cytuno/Yn Anghytuno â Sgôr y BILI



Geirfa Termau Allweddol

archwiliad clinigol – pobl broffesiynol ym maes iechyd yn gwerthuso ac yn mesur i ba raddau maent yn bodloni safonau sydd wedi'u gosod ar gyfer eu gwasanaeth.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) – awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydlynu ymdrechion y wlad gyfan i adrodd am gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion ac, yn anad dim, i ddysgu o'r rhain.

Bwrdd Ymddiriedolaeth – grŵp o bobl sy'n gyfrifol drwy statud am benderfyniadau o bwys ar strategaeth a pholisi ym mhob Ymddiriedolaeth GIG. Yn nodweddiadol, mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod lleyg, Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) – cyrff statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, am sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol ac am sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

cerdyn sgorio cytbwys – system rheoli sy'n darparu model y gall sefydliad egluro ei weledigaeth a'i strategaeth ynddo, a throsi'r rhain yn weithredoedd. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus ym mherfformiad sefydliadol.

Cronfa Risg Cymru (CRC) – cynllun hunansicrwydd cilyddol i bob sefydliad iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff drwy annog a chefnogi perfformiad da o ran rheoli risg a'i asesu trwy fesur yn erbyn safonau gosodedig.

Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) – sefydliadau dielw yn y gymuned sy'n ymwneud â hybu iechyd, eiriolaeth a pholisi. Sefydlwyd CICau ym 1992 er mwyn galluogi'r gymuned i gyfrannu mwy at ddiffinio polisi gwladol a lleol sy'n effeithio ar hygyrchedd gofal iechyd a'i ansawdd. Mae CICau yn cynrychioli budd y cyhoedd yn y GIG, ac mae ganddynt hawl statudol i gael pobl i ymgynghori â nhw ynghylch newidiadau i faes iechyd yn eu hardal.

Cynllun Oes – yn manylu ar weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru, ac mae ganddo strategaeth 10 mlynedd ar waith ar gyfer ei chyflawni. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un yn para oddeutu tair blynedd. Mae'r rhain yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal; Fframwaith 2 (2008-2011) Safonau Uwch; a Fframwaith 3 (2011-2014) Sicrhau Ymrwymiad Llawn.

Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) – strategaeth a gynlluniwyd i sicrhau bod safbwyntiau a barn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn cael eu hystyried wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.

Datganiadau Rheolaeth Fewnol – datganiad ar drefniadau cyffredinol sefydliad GIG ar gyfer cael sicrwydd ynghylch rheoli'r prif risgiau'n effeithiol yn y sefydliad.

diogelu data – gofyniad ar gyfrif cyhoeddus ac eraill i fod ag agwedd gyfrifol wrth reoli data personol. Mae Deddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 yn cwmpasu cyfrifoldebau o'r fath, sef deddfau a gynlluniwyd i ddiogelu data a gedwir am unigolion.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) – canllawiau ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol ar glefyd a salwch.

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan – yn darparu cyngor i'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau'n strategol.

Gwarcheidwad Caldicott – uwch glinigwr ym mhob sefydliad GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a adolygodd dulliau o ddiogelu a defnyddio gwybodaeth cleifion.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHS) – yn darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus sy'n ceisio: gwella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; diogelu rhag clefydon a bygythiadau i iechyd sy'n bodoli, rhai newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg; a chyfrannu at welliannau mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ilwybr gofal – set ddiffiniedig o gamau triniaeth a gofal a gynllunnir i ddiwallu anghenion penodol pob claf.

Ilywodraethu clinigol – fframwaith y mae sefydliadau GIG yn atebol trwyddo am wella ansawdd eu gwasanaethau yn barhaus a diogelu safonau gofal uchel.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) – rhaglen sy'n caniatáu amser gwarchoddedig i nyrsys arsylwi ar ofal a gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, a chyfweld cleifion ynghylch cyflenwi gofal. Wedi'i chynllunio i alluogi nyrsys i ddatblygu a mireinio eu galluedd arwain, gwella sgiliau tîm a sgiliau trefnu, a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

rheoli heintiau – set o weithdrefnau i atal haint rhag lledaenu, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer di-haint ac ati.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n cydweithio ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gofal gwell i gleifion.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a sefydliadau sy'n bartneriaid wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol o ansawdd ledled pob lleoliad gofal iechyd.

Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) – awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu cyfarwyddyd i'r GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) – asiantaeth weithredol a sefydlwyd i helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau mwy diogel wrth recriwtio trwy wneud gwybodaeth cofnodion troseddol yn fwy hygyrch. Mae'r CRB yn helpu cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n golygu cyswllt â phlant neu aelodau eraill o'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Iechyd Gwladol (GIG) – sefydliadau hunanlywodraethu yn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ymddiriedolaethau'n cyflogi ystod lawn o weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion ac ati. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol, mewn ysbytai fel rheol. Mae ymddiriedolaethau cymuned yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, yn y gymuned fel rheol, e.e. nyrsys ardal, trinwyr traed ac ati. Mae ymddiriedolaethau cyfunedig yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaeth cymuned ac aciwt dan un tîm rheoli.